

Mai 2019

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd.... cARTrefu yn parhau tan 2021!

Bydd cARTrefu, prosiect celf mewn cartrefi gofal, yn parhau tan fis Awst 2021.

Diolch i gyllid pellach gan Sefydliad Baring a Chyngor Celfyddydau Cymru, bydd cARTrefu yn parhau am ddwy flynedd arall. Bydd trydydd cam cARTrefu yn dechrau ym mis Medi 2019, ond bydd yn wahanol i'r ddau gam cyntaf. Bydd Cam 3 yn canolbwyntio ar rymuso staff cartrefi gofal i wella ystod ac ansawdd y ddarpariaeth greadigol yn eu cartref gofal, gan godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision creadigrwydd mewn cartrefi gofal, meithrin gallu drwy rannu dysgu yn y sector



celfyddydau, a sicrhau cynaliadwyedd.

Bydd yr artistiaid sy'n llwyddiannus yn y cam recriwtio yn cyflwyno methodoleg cARTrefu i staff cartrefi gofal ac artistiaid, ac yn gweithio'n agos gyda staff cartrefi gofal i greu cynlluniau gweithgaredd cARTrefu, cyflwyno gweithdai ymarferol o amgylch eu harferion


penodol, a dangos sut y gallant gael eu cyflwyno gan y staff mewn lleoliad cartref gofal. Mae'r prosiect cARTrefu yn parhau i fod am ddim i gartrefi gofal.

Erbyn diwedd Cam 2, bydd ein hartistiaid cARTrefu wedi cyflwyno 1840 o weithdai ac wedi cyrraedd dros 25% o'r cartrefi gofal ar draws Cymru.

Os ydych chi'n rheolwr cartref gofal, yn gydlynnydd gweithgareddau, yn aelod o staff cartref gofal, neu'n artist a hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am gam 3 o cARTrefu, cysylltwch â:

sarah.lord@agecymru.org.uk

Pecynnau gweithgaredd ar gael o hyd...



Wedi'u creu gan y tîm artistig o cARTrefu 1, mae ein Pecynnau Gweithgareddau cARTrefu gwyb, AM DDIM, ar gael o hyd, felly os oes gennych ddi-ddordeb mewn rhoi cynnig ar rai o weithgareddau cARTrefu yn eich cartref gofal, e-bostiwch sarahlord@agecymru.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1540 a byddwn yn anfon pecyn dwyieithog atoch, yn rhad ac am ddim

Mae'r pecyn yn cynnwys ystod eang o weithgareddau o'r meysydd canlynol: Y Celfyddydau Gweledol, Geiriau, y Celfyddydau Perfformio a Cherddoriaeth. Mae yna bum gweithgaredd ym mhob ffurf gelf, ac mae pob gweithgaredd wedi'i symleiddio i fod yn ganllaw cam wrth gam fel bod staff cartrefi gofal, sydd efallai heb unrhyw brofiad o gyflwyno gweithgareddau, yn gallu rhoi cynnig ar alluogi preswylwyr i greu eu gwaith celf eu hunain.

Newidiadau i'r tîm

Ymunodd Sarah Lord â'r tîm ym mis Ionawr fel Cydlynnydd Prosiect. Mae Sarah wedi gweithio i Age Cymru ers mis Ebrill 2018 o fewn y gwasanaethau canolog, ond neidiodd at y cyfle i wneud cais am secondiad i weithio ar y prosiect cARTrefu pan gododd y cyfle.

Cyn ymuno ag Age Cymru, bu Sarah yn gweithio fel ffotograffydd stiwdio am saith mlynedd.



Mae Kelly Barr wedi cael ei dyrchafu i fod yn Rheolwr Rhaglenni Celfyddydau a Chreadigrwydd Age Cymru gan redeg ŵyl y Gwanwyn.

Gŵyl genedlaethol dros gyfnod o fis yw Gwanwyn a gynhelir ledled Cymru ym mis Mai bob blwyddyn gan ddatlu creadigrwydd mewn blynddoedd hŷn. Dechreuodd yr ŵyl yn 2007 a chaiff ei chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Teulu cARTrefu

Ar 23 Ebrill, daeth y tîm cARTrefu at ei gilydd yng Nghartref Gofal Bethshan ar gyfer eu fforwm.

Buont yn trafod cam nesaf y prosiect cARTrefu, yn rhannu straeon ac arfer da , a chafodd yr artistiaid a'r mentoriaid amser gwerthfawr gyda'u grwpiau. Cytunodd Heather Wenan - Arweinydd Gofal Dementia ym Mhowys ac un o ymddiriedolwyr cartref gofal Bethshan, i siarad yn y fforwm, amlygodd pwysigrwydd y sesiynau y mae artistiaid cARTrefu yn eu darparu, a'r effaith fawr y maent yn eu cael ar y rhai sy'n byw gyda Dementia.

Gyda diolch i John Dafydd-Kidd am y llun o'r tîm!



Ymweliad EUB Tywysog Cymru â gweithdy cARTrefu, Castell-nedd

Ymwelodd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, noddwr Age Cymru, â chartref gofal Plas Bryn Rhosyn yng Nghastell-nedd ar ddydd Gwener 22 Chwefror i weld drosto'i hun sut mae cARTrefu yn cefnogi preswylwyr hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw gyda Dementia, i gymryd rhan mewn sesiynau creadigol.



Ein hartist, Alison Moger, gyflwynodd y gweithdy gyda chymorth gan ei mentor cARTrefu Michal Iwanowski.

Cafodd ei Uchelder Brenhinol lyfr yn cynnwys delweddau o'r gwaith celf sydd wedi'i greu gan artistiaid cARTrefu a phreswylwyr cartrefi gofal.

Dywedodd Rheolwr Plas Bryn Rhosyn, Stuart Davies: "Roeddem yn falch iawn pan glywsom ein bod yn mynd i gael ymweliad gan aelod o'r teulu brenhinol. Roedd hi'n bleser gweld y preswylwyr a'r staff yn cael hwyl ac yn arddangos eu gwaith celf".

Ffilm cARTrefu

Yn dilyn ymweliad y Tywysog, rhyddhaodd Age Cymru'r ffilm cARTrefu sy'n serennu preswylwyr a staff o Blas Bryn Rhosyn. Cafodd ei ffilmio gan Clare Sturges, cyfarwyddwr o Gymru sydd wedi ennill Gwobr BAFTA, a'i gynhyrchu gan Age Cymru i hyrwyddo effaith creadigrwydd mewn cartrefi gofal trwy'r prosiect cARTrefu.

Gallwch weld y ffilm cARTrefu ar y wefan www.ageuk.org.uk/cymru/our-work/arts-and-creativity/cartrefu/



Ar y ffordd gyda Chiwb cARTrefu

Un o amcanion eraill y prosiect oedd defnyddio arddangosfeydd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fywyd creadigol mewn cartrefi gofal, trwy gyfrwng y gwaith celf sydd wedi ei greu gyda, a'i ysbrydoli gan, bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn gweithio ynddynt ac yn ymweld â hwy.

Mae'r Ciwb cARTrefu yn caniatáu i ni arddangos y gwaith ledled Cymru, trwy gyflwyno gwaith artistiaid lleol i'r cyhoedd. Bydd Taith Ciwb cARTrefu sy'n arddangos gwaith celf artistiaid cARTrefu (Cam 1 a Cham 2) yn parhau.



Mae'r llun yn dangos gwaith yr artist cARTrefu Alison Moger a gafodd ei arddangos y tu allan i Ganolfan Taliesin, Prifysgol Abertawe.

"Wrth weithio gyda'r preswylwyr rwyf wedi eu hannog i adrodd eu storïau o fewn y broses gwneud marciau gan ddefnyddio hen batrymau a hen bapur. Wrth i bob stori ddatblygu mae fy ymateb i eiddilwch ond eto cryfder y preswylwyr unigol yn dod yn rhythm defodol o blygu a phwytho, yn fy ymdrech i ddal atgofion ac ysbryd bywydau sydd wedi'u byw.

Mae'r daith hon gyda'r preswylwyr wedi datblygu'n gyson gyda'r deunydd yn dod yn fwy symbolaidd o'r cnawd a'r dilledyn yn dod yn fynegiant o hyn.

'Papur hindreuliedig ar gyfer croen, bagiau stoma ar gyfer pysiau.'

Ein cnawd bregus wedi'i orchuddio o'r elfennau a llygaid pobl eraill, o'r crud i'r bedd, yn ceisio amddiffyn ein bregusrwydd."



Mae'r lluniau canlynol yn dangos gwaith ein Hartist Laura Reynolds.

Ni allwch ddeall beth mae'n ei olygu tan i chi fyw'r peth eich hun

Mae'n gorffen ar y dechrau ac yn dechrau ar y diwedd, yr ehangder llachar hwn; yn barod i'w lenwi gyda rhywbeth newydd.

Pytiau o sgysiau a dyfyniadau, atgofion o wynebau a lleoedd, atgofion ac eiliadau o fywyd sydd wedi'i fyw'n dda, yn llawn llawenydd, emosiwn a phrofiadau. Yn eistedd gyda'n preswylwyr wrth i ni fynd ar ein hanturiaethau celf wythnosol, gan wrando ar eu straeon a'u sylwadau sy'n cael eu hailadrodd yn aml. Nid yw'r geiriau bob amser yn golygu'r hyn a ddywedant, weithiau maent yn arwydd neu'n gais am rywbeth arall yn llwyr. Mae tirluniau mewnol ac allanol yn ymdoddi ac yn gwrthdaro, gan greu profiad aml-haen ac weithiau'n dameidiog o fywyd bob dydd.



Mae'r gosodiad hwn yn cynnwys gweithiau cydweithredol ac unigol gan y preswylwyr eu hunain yn ogystal â rhai o'm brasluniau ar liain fy hun o'r preswylwyr yn naturiol, yn gwehyddu eu geiriau yn eu portreadau, gan ychwanegu lliw olew yn ddiweddarach, yn fy stiwdio, gan ddefnyddio ffotograffau i brocio'r cof, ond yn eu lliwio o'r cof i bortreadu eu personoliaethau yn well.

Nid yw'r Ciwb ar gael tan ganol mis Medi, ond bydd ar gael ar ôl hynny. Mae'n addas i'w ddefnyddio tu fewn a thu allan.



Gall gynnwys gwaith celf sefydlog neu waith yn seiliedig ar berfformiad. Rydym yn cynnig y ciwb am 3-4 wythnos ar y tro i'n lleoliadau partner. Mae ein hartistiaid wedi datblygu cyfoeth o waith dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'n barod i'w arddangos..

Os hoffech i Giwb cARTrefu ymweld â'ch lleoliad chi, cysylltwch â sarah.lord@agecymru.org.uk

Ac yn olaf...



Rhwydwaith Diwylliant Oed-Gyfeillgar

Menter Genedlaethol yw'r Rhwydwaith Diwylliant Oed-Gyfeillgar a grëwyd trwy gydweithrediad rhwng Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Heneiddio'n Dda yng Nghymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Gwanwyn (Age Cymru). Mae'r rhwydwaith yn dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau o'r sectorau celfyddydol, diwylliant a threftadaeth o bob cwr o Gymru i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arfer da. Mae'n datblygu ffyrdd arloesol ac ymarferol i ymgysylltu'n well â phobl hŷn a gwella ansawdd eu bywydau a'u lles. I gael gwybod mwy ewch i:

<http://www.agefriendlyculturenetwork.co.uk/about>

THE AGE
FRIENDLY

CULTURE
NETWORK



Gwanwyn 2019

Gŵyl Genedlaethol mis o hyd sy'n cael ei chynnal ar draws Cymru bob mis Mai i ddathlu creadigrwydd pobl hŷn yw Gŵyl Gwanwyn. Dechreuodd yr ŵyl yn 2007 ac mae'n cael ei chefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae Gwanwyn yn dathlu mynd yn hŷn fel cyfle ar gyfer adnewyddiad, twf a chreadigrwydd. Ein nod yw cynnig cyfleoedd i bobl hŷn gymryd mwy o ran yn y celfyddydau, boed yn y celfyddydau gweledol, drama, adrodd straeon, cerddoriaeth, llenyddiaeth, ffotograffiaeth, dawns neu ffilm.

Dywedodd Kelly Barr: "Mae Gŵyl Gwanwyn 2019 wedi bod yn ddathliad gwych o greadigrwydd pobl hŷn; o adfywio cymunedol i wehyddu i ddangosiadau o ffilmiau rhyngwladol a ffilmiau sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae gennym grantiau ar gael i ffrindiau hen a newydd, ac rydym wedi cefnogi digwyddiadau ledled Cymru gyfan. Cadwch olwg ar ein gwefan, gwanwyn.org.uk, i weld sut allwch chi gymryd rhan yng Ngŵyl Gwanwyn 2020.

Os ydych yn trefnu digwyddiad ar gyfer pobl hŷn ac eisiau iddo fod yn rhan o raglen Gŵyl Gwanwyn cysylltwch â Kelly Barr, Rheolwr Rhaglenni Celfyddydau a Chreadigrwydd Age Cymru: kelly.barr@agecymru.org.uk

<http://gwanwyn.org.uk/>